

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 239

Pris £1

Mis Tachwedd 2021



Parc Morgan Jones

Dathlu Carreg Filltir



Dyma lun hyfryd o deulu'r Parchedig Denzil John a'i wraig Siân ynghyd â'u teulu agosaf. Tynnwyd y llun ar achlysur i nodi gwasanaeth o ddeg mlynedd ar hugain yn weinidog ar gapel y Tabernacl, Caerdydd, a hefyd ei ymdeoliad o'r weinidogaeth. Cynhaliwyd y dathlu ddechrau mis Hydref ac yn y llun gyda Denzil a Siân mae eu merch Luned a'i gŵr Dyfrig a'u plant Hawys a Gwydion; a hefyd eu mab Aled, ei wraig Lynwen a'u plant hwythau, Gethin a Megan.

Diolchwn i Manon George am ei hadroddiad am y digwyddiad yn "Cennad": "Yn ystod yr oedfa, cafwyd tri anerchiad: y Parchedig Ddr Alun Tudur ar ran Eglwysi Cymraeg Caerdydd; y Parchedig Judith Morris ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru a Rhys ab Owen, AS, ar ran teulu'r Tabernacl. Y pregethwr gwadd oedd y Parchedig Rob Nicholls, Llundain, sef un o blant yn y ffydd Denzil. Daeth y Parchedig Denzil John ymlaen i offrymu'r fendith a diolchodd am gefnogaeth ei deulu a'r eglwys, ond yn bennaf oll i Dduw am ei gefnogi yn ei weinidogaeth."

Mae'r erthygl yn parhau drwy ddweud mai Denzil oedd yr ail i wneud y daith dros fynydd Caerffili o Donyfelin i'r Ais, gan i Christmas Evans gyflawni'r un siwrnai 150 o flynyddoedd yn gynt.

Cyn troi at ofalaeth capel y Bedyddwyr yn ein prifddinas, bu Denzil yn weinidog yng nghapel Tonyfelin gan ychwanegu Bethel at ei lwyth gwaith. Bu gyda ni yma'n weinidog am bron i ugain mlynedd.

Bu ymroddiad Denzil i'r ardal hon yn sylweddol pan yn weinidog yma, gan barhau'n ddiflino tra hefyd yn bugeilio yng Nghaerdydd. Ef, wrth gwrs, sefydlodd y papur bro, dan y teitl "Tua'r Goleuni" dros ugain mlynedd yn ôl. Bu'n lywodraethwr ar Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac yn swyddog lleol gyda Mudiad Ysgolion Meithrin, fel yr oedd y sefydliad hwnnw ar y pryd. Mae Denzil yn un o'r aelodau a sefydlodd ein cwmni drama lleol ac yn dal i fod yn aelod brwdfrydig ohono.

Mae Denzil wedi byw bywyd llawn, diddorol a theilwng. Mae'r rhestr o'r pwyllgorau a'r sefydliadau y bu'n weithgar ynddynt lawer yn rhy hir i'w cynnwys i gyd yma. Yn Gadeirydd Cyngor yr Ysgolion Sul, yn aelod o Bwyllgor Cenedlaethol Cymorth Cristnogol, bu hefyd yn Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru. Ef hefyd fu ac sydd yn gyfrifol am lawer o erthyglau golygyddol yn y wasg enwadol am dros ddeg mlynedd ar hugain e.e. "Cennad". "Seren Cymru" oedd un o'r cyhoeddiadau ond mae'r papur wedi uno â'r Presbyteriaid a bellach ond yn cael ei argraffu ar gais darllenwyr.

Y Golygydd

Llongyfarchiadau Euraid x 2

Yng Nghaerdydd yn y Coleg y cyfarfu'r pâr ifanc yma am y tro cyntaf: Gwyn ar ei drydedd flwyddyn a Mag yn ei hwythnos gyntaf o'i blwyddyn gyntaf!!!



Ond yng Nglanaman ger Rhydaman yn Sir Gâr y cynhaliwyd y briodas a hynny yng Nghapel Bryn Seion ddydd Sadwrn Hydref 23ain 1971. Trist nodi fod y capel bellach wedi cau.

Wrth i Mag a'i thad gerdded i mewn i'r capel o flaen eu gosgordd chwaraewyd ymdeithgan "Whiter Shade of Pale" Procol Harem, hoff gerddoriaeth y ddau ar y pryd. Morynion y briodferch y diwrnod hwnnw oedd, Nia Beynon, Sera Beynon ac Ann Beynon a gwas priodas Gwyn oedd Alun Charles. Y Gweinidogion oedd y Parch Noel A. Davies a'r Parch Ifan R. Williams. Yr Organydd oedd Brynmor Jenkins a cherddodd y gŵr a'i wraig newydd allan i seiniau Ymdeithgan Briodasol Mendelssohn

Cynhaliwyd y neithior yng ngwesty'r Dragon yn Abertawe. Roedd hwn yn dipyn o brofiad i deulu Gwyn oedd wedi dod i lawr o Sir Fôn, yn enwedig o gael aros yn y

Mwmbwls !!Hedfanodd y pâr priod wedyn i fwynhau eu Mis Mêl yn Barcelona.

Yn athrawon ifanc daethant i ymgartrefu yng Nghaerdydd am gyfnod byr cyn setlo yng Nghaerffili yn 1972 a magu dwy o ferched, Bethan a Gwenllian. "Braf cael dathlu 50 mlynedd gyda'n gilydd," medd Gwyn "gyda'r wyrion a'r wyresau a gweddill y teulu nos Sadwrn y dathlu."

Stori hyfryd o'r hyn ddigwyddodd diwrnod y briodas oedd am Mag a'i thad (a'r chauffeur) yn agosau at Waun Cae Gurwen yn gynt na'r disgwyl. Ac meddai tad Mag: "Ti'n ffansio cornet fach o Cresci's? Mae digon o amser da ni a ma nished lân 'da fi i ti roi dros dy ffrog"!!!!



Cyfarfod yn y coleg yn Abertawe, yn y bar (ble arall!) wnaeth Gwyneth a Gwyn ac ar eu noson allan gyntaf gyda'i gilydd fe gwrddon nhw yng Ngwesty'r Ddraig, Abertawe.

Wedyn priodi yng nghapel y Methodistiaid Calfinaidd yn Nhrefnant, Dyffryn Clwyd, ddydd Sadwrn y 23ain o Hydref 1971 am 2 o'r gloch a hynny am ddau er mwyn i bobl y De gael digon o amser i gyrraedd.

Y Morynion Priodas oedd Llinos Jones, Marilyn Minshull a Christa Davies. Y tywyswyr Hefin Lloyd Jones a Delwyn Siôn. Gwas priodas Gwyn, credwch hynny neu beidio, oedd yr enwog Max Boyce!

Roedd ei araith yn siŵr o fod yn werth ei chlywed!

Y gweinidogion oedd y Parchedig Richard Thomas a'r Parchedig Aneurin Roberts. Yr Organyddes oedd Mrs Beti Squire a chwaraeodd Ymdeithgan Briodasol Mendelssohn.

Cynhaliwyd y neithior yng Ngwesty'r Castell, Rhuthun. Roedd hi'n dipyn o brofiad i deulu'r De o gael aros yn y Rhyl yng Ngwesty'r Westminster. Ac aeth y cwpwl ifanc ar ei mis mêl i Gaernarfon. Eu hoff gân yn y cyfnod hyn oedd Knights in White Satin gan y Moody Blues

Buont yn byw yn Birmingham am dair blynedd cyn setlo yn Nhretomos yn 1974 lle ganwyd Gareth. Wedi symud i Faesycwmer ym mis Tachwedd 1979 ganed Bethan. Byddan nhw'n dathlu 50 mlynedd gyda'i gilydd yn Nhŷ Ddewi dros o'r 22ain i'r 25ain ac yna yn cwrdd â'r rhai o'r teulu yng Nghaerdydd ar y 26ain. Ond, yn anffodus ni fydd Gareth a'i wraig Nid yn gallu dod o Bangkok i ddathlu gyda ni oherwydd Covid.



“Wynne the Spy”



Mae gennym hen draddodiad yng Nghymru o lisenwi pobol yn ôl eu galwedigaeth, megis Jones y Llaeth, Ifans y Glo ac ati. Ond nawr, “Wynne the Spy”!! Beth Nesa?

Ac mae ein hanes am ein hysbiwr lleol yn dechrau gyda’r diddordeb mawr mewn ffilm a ddangoswyd yn lleol yn ddiweddar. Enw’r ffilm oedd “The Courier” a’r seren oedd Benedict Cumberbatch oedd yn actio rhan yr arwr, Greville Wynne. Stori’r ffilm oedd am y Gwasanaethau Cudd Prydeinig, MI6, yn recriwtio Wynne i ysbïo dros bwerau’r gorllewinol yn Rhyfel Oer 1960-61.

Diolch i Mrs Rita Burtsh a Mr Ron Gould o Dredomen,

rydym wedi dysgu mai yn Rhif 1 Tredomen Villas, Ystrad Mynach, y bu Greville Wynne fyw pan yn blentyn. Gwelwch y tŷ'r ochr draw i’r fynedfa i Fryn Mynach ar Heol Nelson. Mae coeden fawr o flaen y tŷ a’r adeilad wedi’i orchuddio gan ddringiedydd bras ac felly rydym yn ddiolchgar am hen lun o’r tŷ a gafwyd gan Howard Barnes yr hanesydd lleol.

Dywed Facebook wrthym i Greville Wynne gyrraedd Ystrad Mynach bron i gan mlynedd yn ôl; treuliodd ei blentyndod yma a chafodd ei addysg gynradd ac uwchradd yn ysgolion y pentref. Cyfaddefodd yn ddiweddarach iddo ddioddef o ddyslecsia ac efallai fod hyn yn egluro pam na phasiodd yr arholiad i fynd i Ysgol Ramadeg y Bechgyn yng Nghaerffili. Yno byddai’n rhaid iddo fynd, petai wedi bod yn llwyddiannus, am ei fod yn byw i’r de o Nant Caeach. Gadawodd yr ysgol yn 14 oed ond dywedir iddo wedyn gyrraedd Prifysgol Nottingham, lle bu’n astudio peirianeg electronig a’i arweiniodd ef at y gwaith a achosodd iddo deithio i Rwsia.

Am ei addysg leol dywedir iddo fynegi’r farn “..... yn ychwanegol i’r cwricwlwm arferol cawsom grefydd a’r iaith Gymraeg wedi’u gwrthio i lawr ein corn gwddf anfodlon!” Roedd ei dad Bert Wynn yn arbenigo mewn adeiladu boeleri ager a chanddo dair merch a mab, Greville, oedd ond yn dair blwydd oed pan ddaeth y teulu i’r ardal hon.

Amser pryderus i’r byd cyfan oedd adeg Y Rhyfel Oer, oherwydd yr anghydfod rhwng Rwsia ac America. Gosododd yr anghytuno hyn heddwch y byd yn y fantol dros gyfnod o nifer o fisoedd pryderus iawn. Ymgynghorydd gwerthiant diwydiannol oedd Wynne a deithiai yn sgîl ei waith drwy Ddwyrain Ewrop a’r Undeb Sofietaidd gan gynrychioli cwmnïau trydan a dur Prydeinig. Ond cafodd swyddogion yr MI6 berswâd arno i gludo dogfenni i mewn ac allan o Rwsia tra’n ymwneud â’i fusnes pob dydd. A hyn, er nad oedd ganddo unrhyw brofiad na hyfforddiant o fod yn ysbïwr.

Yn Rwsia gwnaeth gysylltiad ag Oleg Penkovsky, Rwsiad oedd yn peryglu ei fywyd ei hun oherwydd ei awydd i drosglwyddo dogfenni cyfrinachol yr Undeb Sofietaidd i bwerau’r Gorllewin. Gwelai hyn fel un ffordd o liniaru’r gwrthdaro rhwng y pwerau mawr hyn. Mae cyfeillgarwch y Cymro a’r Rwsiad yn un o brif themâu’r ffilm, er dywedir gan rai i Wynne eitha’ mwynhau ei rôl beryglus, os annhebygol.

Dechreuodd y rhwyd gau ar weithgareddau’r ddau brif gymeriad, dau oedd yn ymrwymedig i geisio cadw heddwch rhwng y Dwyrain a’r Gorllewin. Pan drodd pethau’n annifyr, ceisiodd y Gwasanaethau Cudd Prydeinig berswadio Wynne i gamu’n ôl. Ond roedd Wynne yn benderfynol o fynd yn ôl i Rwsia am ei fod yn gweld fod bywyd ei gyfaill newydd mewn perygl dirfawr. Dangosodd y ffilm i Wynne gael ei ddal gan y Rwsiaid a’i garcharu a’i arteithio dros gyfnod o ryw ddwy flynedd.

Yn y diwedd, credir i Greville Wynne wneud cyfraniad arwyddocaol i osgoi rhyfel drwy'r hyn a ddaeth yn



adnabyddus fel Argyfwng Taflegrau Cuba (*The Cuban Missile Crisis*). Er bod sôn hefyd fod tipyn o ramanteiddio wedi bod ac o Greville fwynhau'r rôl beryglus hon. Pan ddeallodd y Rwsiaid yr hyn roedd Oleg Penkovsky yn ei wneud fe'i dienyddiwyd a'i labeli'n fradwr.

Roedd tad Ron Gould, Tredomen, yn cofio Wynne yn Ysgol y Bechgyn, Ystrad Mynach, pan oedd y ddau yn rhyw wyth mlwydd oed. Mae Ron wedi cadw llun y dosbarth a gwelir mai Greville yw'r

trydydd o'r dde yn y rhes flaen gyda bachgen bach arall yn eistedd o'i flaen. Roedd tad Ron yn cofio'r ysbïwr fel un a wisgai'n drwsiadus. Ac mae lle i gredu fod y crotyn a'i chworydd yn dda eu byd gan eu bod yn byw yn un o dai swyddogion gwaith peirianeg Powell Dyffryn, ac nid un o dai'r gweithwyr.

Bu Greville Maynard Wynne fyw o 1919 tan 1990, er bod Gwgl yn dweud iddo farw yn 1970 a bod dwy o'i chworydd yn dal i fyw yn yr ardal yr adeg honno. Bu farw o gancr yn Ysbyty Cromwell Llundain, yn 70 mlwydd oed.

Y Golygydd

Ein diolch i'r cyfaill Dafydd Idris Edwards am ein gosod ar drywydd stori mor ddiddorol.

"Dosbarth W. J."

Tynnwyd sylw ein darllenwyr gan Dafydd Islwyn yn rhifyn mis Hydref at y traddodiad hir a balch o gynnal cyfarfod "Eisteddfota" yng Nghaerffili ers 1973. "Dosbarth W. J." oedd yr enw poblogaidd ar y dosbarth am mai'r diweddar W. J. Jones fu'n ei arwain tan 1997. Ac fel mae'n digwydd, "W. J." arall sydd wedi bod yn arwain y dosbarth ers Ionawr 1998, sef yr Athro Wyn James.

Bu'n amhosibl cynnal y dosbarth arferol y llynedd am nad oedd yr Eisteddfod Genedlaethol wedi cyhoeddi'r gyfrol flynyddol, "Cyfansoddiadau a Beirniadaethau". Yn lle hynny, cafwyd cyfres o gyfarfodydd dros Zoom, dan arweiniad Wyn, yn trafod agweddau ar y diwylliant Cymraeg yng Nghwm Rhymni dros y canrifoedd.



Ond eleni, â llyfryn gwerthfawr y Genedlaethol o Gyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod AmGen 2021 ar ein silffoedd llyfrau, bydd y dosbarth yn bwrw ati unwaith eto. Yn rhithwir, ar Zoom, y bydd y sesiynau cyntaf, gyda'r posibilrwydd o gynnal y dosbarth "yn fyw" pryd neu os bydd bygythiad y Covid yn gostwng i lefel fwy derbyniol.

Mae croeso i bawb ymuno â ni. Dyma'r fwydlen. (Mae'n bosibl y bydd newidiadau i'r trefniadau ddiwedd y cwrs.) Dyma ni, beth amdani?

Tachwedd 3ydd	Cerdd y Gadair
Rhagfyr 1af	Cerddi'r Goron
Ionawr 5ed	Cerddi eraill y gyfrol
Chwefror 2ail	Rhyddiaith gan gynnwys y Stori Fer
Mawrth 2ail	Y Fedal Ryddiaith a/neu Wobr Goffa Daniel Owen
Ebrill 6ed	I'w drafod

I gael rhagor o wybodaeth ac i dderbyn y ddolen Zoom, anfonwch at Wyn (JamesEW@caerdydd.ac.uk) neu'r Golygydd (benamarycwmni@yahoo.com).

Merched y Wawr Cwm Rhymni

Cwrddon fel cangen wyneb yn wyneb am yr ail dro y tymor hwn - a braf oedd cael gwneud.



Ddydd Mercher 20fed o Hydref 2021, ymwelon ni â gardd Hillcrest, Cefn Fforest - un o erddi'r National Garden Scheme (NGS). Buon yno dair gwaith fel cangen dros y blynyddoedd a chawsom groeso gwresog gan y perchennog, Michael O'Leary.

Roedd Mike wedi paratoi te prynhawn blasus i ni a bu'n bosib ymlacio'n llwyr yn yr heulfan foethus yn yr haul a chloncian gyda hen ffrindiau. Ma Zoom yn declyn gwerthfawr dros ben a byddwn ddigon balch o'i ddefnyddio eto'r gaeaf yma, rwy'n siŵr - ond roedd cwrdd wyneb yn wyneb fel tonic i ni gyd.

Ar ôl mwynhau'r lluniaeth, daeth siawns rhwng cawodydd a chyn iddi nosi i ni fentro allan i'r ardd.

Fe greodd Mike â'i bartner Bev ardd arbennig dros flynyddoedd lawer a tua 15 mlynedd yn ôl agorwyd yr ardd i'r cyhoedd er mwyn codi arian i elusennau a benodwyd gan yr NGS. Trwy agor yn flynyddol, erbyn hyn maent wedi trosglwyddo dros £50,000 i gronfa'r NGS.

Yn drist iawn fe fu farw Bev flwyddyn ddiwetha' - ond ma Mike wedi penderfynu cario mla'n a chynnal a chadw'r ardd - a hefyd cynnig lluniaeth ysgafn, fel bo'r galw. Gwaith llafurus a chaled iawn yn wir. Bwriedir agor y gatiau eto'r flwyddyn nesa, gan gynnwys rhai diwrnodau yn ystod Gorffennaf ac Awst - a byddwn ni'n cadw llygad ar wefan yr NGS am wybodaeth bellach. On'd ydyn ni'n lwcus cael yr ardd hon yn ein milltir sgwâr?



Er cof am Bev, soniodd Mike bod e ag aelodau Clwb Garddio Bargod (roedd Mike a Bev yn aelodau) yn ddiweddar wedi plannu coeden Magnolia "Honey Tulip" ger y Fynedfa yng Ngardd Aberglasney yn Sir Gâr.

Dyna drip i ni ferched!



Ma rheswm arall 'da Mike i fod yn falch iawn eleni. Bu'r cyhoedd yn enwebu eu ffefrynnau o erddi'r NGS yn genedlaethol ac ma Hillcrest ar y rhestr fer o dan un o'r categorïau, sef Cymru a'r Gororau. Dangosodd Mike erthygl o'r cylchgrawn 'The English Garden' oedd yn disgrifio'i ardd, ynghyd ag ychydig o wybodaeth ar yr 28 gardd arall yng Nghymru a Lloegr oedd ar y rhestr fer. Hyfryd fyddai ennill - ond ma enwebiad yn gydnabyddiaeth deilwng o waith caled y gorffennol a'r presennol.

Mae'n debyg bod dros 3,600 o erddi yn perthyn i Gynllun yr NGS ar hyn o bryd - rhai mawr a bach, stadau crand, gerddi cymunedol, rhandiroedd, ayb. Ers dechrau'r NGS casglwyd dros £60 miliwn i'r gronfa - a rhoddwyd £25 miliwn i elusennau Marie Curie, Hospice UK a Carers' Trust (elusen sy'n cefnogi gofalmwyr sy'n gwneud eu dyletswyddau'n ddi-dâl). Rhannwyd y gweddill rhwng pob math o elusennau cenedlaethol, megis

Macmillan a Mind. Mae'r rhain yn symiau o arian hollol syfrdanol ar unrhyw lefel.

Fis nesa ar ddydd Mercher 17eg o Dachwedd am 7.00, byddwn yn cwrdd ar Zoom i wrando ar Judith Griffiths yn adrodd hanes ei hymweliadau dros flynyddoedd lawer â Nova Scotia.

Os hoffech ymaelodi â Changen Merched y Wawr Cwm Rhymni neu ymuno â ni ar Zoom i weld ambell ddogwyddiad yn ein rhaglen, yna e-bostiwch gaynorw555@gmail.com i gael gwybodaeth bellach. Byddai'n hyfryd iawn clywed oddi wrthyh.

Gaynor Williams

Cofio Morgan Jones AS ger ei gartref

Etholwyd y gwrthwynebydd cydwytodol cyntaf i Senedd San Steffan yn Awst 1921. Ei enw oedd Morgan Jones, ac fe enillodd sedd Caerffili yn dilyn ymgyrch fer ond ffyrnig - chwe wythnos yn unig. Mae dathliadau canmlwyddiant buddugoliaeth Morgan Jones wedi parhau o fis Awst i fis Hydref!

Ar union ddiwrnod yr etholiad, 24 Awst eleni, dadorchuddiwyd bwrdd gwybodaeth am Morgan Jones yn y parc a enwyd ar ei ôl yng Nghaerffili. Yna, ar Hydref 12, dadorchuddiwyd bwrdd gwybodaeth arall yn y parc ym Margod. Er nid yw'r parc hwn wedi ei enwi ar ei ôl, roedd cysylltiadau agos iawn gyda Morgan Jones â Bargod. Mae'r testun ar y gofeb hon rywfaint yn wahanol i'r testun yng Nghaerffili, ac yn adlewyrchu'r cysylltiadau hyn.

Cafodd Morgan Jones ei eni yng Ngelligaer, ond symudodd ei deulu i fyw ym Margod. I ddrws eu cartref yn Park Crescent ddaeth yr heddlu i restio eu mab ym Mai 1916 oherwydd ei wrthwynebiad cydwytodol i'r rhyfel. Dyna ddechrau'r cyfnod anodd yn ei fywyd, pan gafodd ei garcharu am ei safiad egwyddorol, a cholodd ei swydd fel athro hefyd. Ond wedi iddo gael ei ethol yn Aelod Seneddol Caerffili, byddai Morgan Jones yn cwrdd â'i etholwyr yn yr un tŷ. Trwy garedigrwydd y teulu, mae llun hyfryd ohono fe gyda'i fam ar drothwy ei chartref i'w weld ar y bwrdd gwybodaeth.



Cafodd Morgan Jones ei hyfforddi'n athro ac yn y Bargod y bu'n dysgu hefyd. Roedd yn bleser croesawu

Delyth Jewell AS i'r dadorchuddio ym Margod, a hithau'n wyres i Ceri Edwards, prifathro ysgol uwchradd Heol Ddu. Roedd adeilad gwreiddiol yr ysgol honno, a ddefnyddiwyd wedyn gan Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, hefyd yn sefyll ar gornel Park Crescent, ger y parc ei hun.



Dadorchuddio'r plac gwreiddiol ar glwyd Parc Bargod

Daeth Hefin David AS i'r digwyddiad hefyd, ynghyd â'r cynghorwyr lleol. Roedd Morgan Jones yn gynghorydd gweithgar cyn iddo gael ei ethol i'r Senedd. Wayne David AS, ac awdur hanes bywyd Morgan Jones, ddadorchuddiodd y bwrdd gwybodaeth. Ar ddiwrnod braf o hydref, hyfryd oedd gweld cynrychiolwyr etholedig y presennol yn talu teyrnged i un a wasanaethodd yr ardal hon ganrif yn ôl.

Roedd aelodau pwyllgor Cymdeithas Hanes Gelligaer yno hefyd. Mae'r gymdeithas wedi ymgyrchu eleni dros sicrhau cofebion addas i Morgan Jones ym mlwyddyn canmlwyddiant ei fuddugoliaeth yn etholiad 1921. Ac ar ben hynny mae'r gymdeithas ei hun yn dathlu pen-blwydd pwysig eleni: cafodd ei sefydlu ym Medi 1961.

Ond prif hyfrydwch y diwrnod i bawb oedd cael cwmni un o wyrion Morgan Jones yn y seremoni. Daeth Nick Sheaff draw o Lundain i ymuno gyda ni yn y cofio a'r anrhydeddu. Ac fe gerddon ni ar hyd y stryd gyda'n gilydd wedyn – y stryd a welodd athro ifanc yn cael ei restio am ei egwyddorion a'r stryd a welodd ei waith dros bobl yr ardal hon.

Dr Elin Jones

Arweinydd Gwych

Dyma gyflwyno Kate Jenkins, arweinydd brwdfrydig Cylch Tedi Twt yn Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod.



Cafodd gwaith rhagorol Kate ei gydnabod yn seremonïau Mudiad Meithrin a gynhaliwyd ddydd Sadwrn yr 2ail o Hydref yn Theatr y Werin, Aberystwyth. Enillodd Kate y wobr gyntaf yng nghategori Arweinydd Cylch Meithrin. Dywed swyddogion y Mudiad fod eu staff wedi gweithio'n ddiflino yn ystod y pandemig a bod hyn wedi dangos mor bwysig yw eu gwasanaeth i'r gymuned leol ac i'r economi. Mae'r Mudiad Meithrin yn teimlo fod y dyfarniadau hyn yn cydnabod ac yn diolch i staff am eu hymroddiad a'u gwaith caled.

Mae Kate, sydd yn byw yn Nhrelewis, wedi bod gyda'r Mudiad ers 10 mlynedd a chwech ohonyn nhw yma yng Ngilfach. Cyn hynny bu'n cynorthwyo yn y Cylch yn Nelson. Mae'n gyn ddisgybl Ysgol Trelyn ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac yn ystod ei gyrfa gyda'r Mudiad mae

wedi cymhwyso i Lefel 5 fel ei dirprwy.

Mae Tedi Twt yn Gylch ffyniannus iawn. Dechrau'n Deg ar gyfer plant 2 a 3 sydd yn y bore ar gyfer rhyw wyth neu naw o blant. Ond yn ystod y prynhawn, daw'r plant hyn pedair blwydd oed i'r Cylch. Rhan o gynllun cofleidiol yr ysgol yw hyn gan fod y plant hyn yn nosbarth meithrin yr ysgol yn ystod y bore. Aiff y plant ymlaen wedyn i Ysgolion Bro Sannan a Threlyn yn ogystal ag Ysgol Gilfach.

Edrychwn ymlaen at weld ffrwd fywiog o blant y Cylch hwn, fel Cylchoedd eraill, yn llanw'n Hysgolion Cymraeg.

Cwis Cymru

1. Pwy oedd Ysgrifennydd Gwladol cyntaf Cymru?
2. Ym mha flwyddyn etholwyd Gwynfor Evans i senedd San Steffan am y tro cyntaf?
3. Pwy oedd A.S. Caerffili o flaen Ron Davies?
4. Pwy oedd Prif Weinidog cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol?
5. Bu Aneurin Bevan yn Aelod Seneddol dros Lyn Ebwy. Beth yw enw'r etholaeth erbyn hyn?
6. Pwy yw Llywydd presennol y Cynulliad Cenedlaethol?
7. Beth oedd priod enw Barwn Aberafan?
8. Un a fu yn Aelod Seneddol Aberafan oedd Prif Weinidog cyntaf Llafur Prydain. Pwy oedd e?
9. Beth yw enw gwraig Rhodri Morgan?
10. Pwy oedd y fenyw gyntaf i'w hethol yn A.S. dros etholaeth yng Nghymru?

Mae'r atebion i'w gweld ar dudalen 15

Y cawl mwyaf iachus posibl?

Pan oeddwn i'n fyfyrwr, hanner canrif a rhagor yn ôl, es i Rwsia gyda chriw o fyfyrwyr eraill, a phrofi peth o naws rhyfedd y wlad honno adeg y Rhyfel Oer. Profais hefyd fywyd y wlad a deall pam roedd morwyr gwrthryfelgar y llong ryfel Potemkin wedi gwrthod bwyta'r *borscht*, cawl betys traddodiadol Rwsia. Roeddwn i hefyd yn gwrthod y cawl piws dyfrllyd oedd yn ymddangos yn rhy aml o lawer ar ein bwydlen!



I ddweud y gwir, doeddwn i ddim yn hoffi bwyta betys o gwbl - ac yna cefais dröedigaeth. Yn cael swper gyda ffrindiau, cawl betys yn cael ei weini, a chwarteisi'n fy ngorfodi i roi cynnig arno. Rwy mor ddiolchgar i fi wneud! Cawl trwchus, blasus, cyfoethog - ac wrth gwrs yn llawn mineralau a fitaminau di-ben-draw. Peth da iawn i'w fwyta'r adeg hon o'r flwyddyn, ac yn enwedig y flwyddyn hon, efallai.

Dyma sut rwy'n mynd ati i'w wneud. Mae'r mesuriadau i gyd yn benagored iawn, rwy'n ofni, gan fod cymaint yn dibynnu ar faint y llysiau unigol.

Mae'n arferol i wneud cawl trwy ffrio wynwns i ddechrau, ond mae eu cynnwys gyda'r stoc llysiau yn lleihau ar fraster y cawl. Felly, os am fwyta basnaid o iechyd da, cymerwch un wynwnsyn wedi ei dorri'n fân a rhowch e i ferwi mewn rhyw 75 litr o stoc llysiau (rwy'n defnyddio powdwr stoc llysiau Marigold, isel ei halen - fwy iachus fyth - ond gorau oll os medrwch wneud eich stoc eich hun, heb unrhyw ychwanegiadau).

Gadewch iddo fudferwi am ryw ugain munud, ac yna ychwanegwch tua 300g o fetys cochion, wedi eu coginio'n barod ac wedi eu torri'n ddarnau. Defnyddiwch fenig rwber wrth drin y betys, cofiwch - fel arall y byddwch yn edrych fel llofrudd, ac mae lliw'r betys yn anodd ei symud.

Pan fydd y cymysgwch wedi mudferwi am chwarter awr arall, tynnwch e oddi ar y gwres, a gadewch iddo oeri rywfaint cyn defnyddio cymysgydd (*blender*) i'w droi'n gawl melfedaidd, porffor, trwchus. Yna nôl i'r sosban (neu'r microdon) i'w dwymo cyn ei weini. Cewch ychwanegu halen a phupur i'w flasu yn ôl eich dymuniad - a gwelwch lawer o ychwanegiadau eraill mewn gwahanol ryseitiau - garlleg, tatws, seleri, tomatos, sinsir, afalau, persli... Dewiswch chi!

Ond dyma rysâit syml sy'n plesio fi - yn enwedig os ychwanegaf lwyaid o iogwrt plaen iddo! Ji, petawn i'n ychwanegu cêl iddo rwy'n siŵr y byddai'n bosibl byw am byth - a byddai gobaith gweld gwahaniaeth yn y fforest cêl sy'n dal i ffynnu yn yr ardd...


Hanes Cwm Ni

Dean Powell
18/11/21
Gwlad y Gân

Dathliad o hanes Canu
Corawl Cymru, yn enwedig
yn ardal cymoedd y de

Clwb Rygbi Penallta
Ystrad Mynach CF82 7EP
7pm

Am ragor o fanylion:
helen.morfydd@coleggwent.ac.uk
Addas i bobl Canolradd/Uwch/Gloywi/Rhugl



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gwent

Amgylchedd Cymru
Welsh Government

Coleg Gwent



**GWAHODDIAD I
LANSIAD FIDEO**

**INVITATION TO A
VIDEO LAUNCH**

**BETH YW
CYLCH MEITHRIN?**

**WHAT IS A
CYLCH MEITHRIN?**



**TACH 5
NOV 5
11:00AM**

CAERFFILI




Sempringham

Ann Lewis

Tybed faint ohonoch sy wedi bod ar bererindod i'r pentref bach yma ym mhellafoedd Swydd Lincoln i ymweld â charreg goffa'r Dywysoges Gwenllïan, unig blentyn Llywelyn Ein Llyw Olaf. Dw i ddim am adrodd hanes bywyd trist y dywysoges yn y lle hwn; yn gyntaf, dw i ddim yn hanesydd ac yn ail, fe ddylech chi wybod yr hanes beth bynnag!

Ond roedd mynd i Sempringham yn focs roeddwn am ei dicio; un o fanteision cael problemau gyda theithio dramor oherwydd COVID yw bod cyfle i fynd i'r mannau hynny yn nes adref a fu ar ryw restr dymuniadau ers blynyddoedd. Go brin fod trip diwrnod i Sempringham yn ymarferol, felly dyma gyfuno'r ymweliad â thaith i Lincoln, dinas wirioneddol hyfryd yn llawn adeiladau hanesyddol hardd sy'n werth eu gweld.

Ond ar ôl treulio rhyw ddeuddydd yn Lincoln (pam nad oes enw Cymraeg ar yr hen ddinas hon fel sydd gan Leicester, Worcester a Gloucester tybed?), daeth yn amser mynd i gyfeiriad Sempringham. Mae ryw 30 milltir i'r de o Lincoln, mewn rhan anghysbell o'r sir, felly diolch byth am y satnav, ddweda i!

Pentref bach iawn yw Sempringham, mae un pentref rywfaint mwy gerllaw ac mae milltiroedd maith o dir amaethyddol yn ymestyn i bob cyfeiriad. Mae'n rhaid troi oddi ar y ffordd fawr i lôn fach gul sy'n arwain at eglwys y plwyf i fynd at gofeb Gwenllïan ond gosodwyd arwydd clir ar geg y lon.


A dyna ni wedi cyrraedd, dwy o nifer fawr o Gymry, siwr o fod, sydd wedi gwneud y daith erbyn hyn. Mae cofeb Gwenllïan yn gwneud cryn argraff, carreg raenus a gardd fach o'i blaen. Mae'n amlwg fod rhywun yn cymryd gofal mawr o'r gofeb.

A bod yn gwbl onest, wyddwn i ddim beth i'w ddisgwyl yn Sempringham. Wrth feddwl am y baban bach a gludwyd bellter mawr o'i chartref a'i chenedl i ardal gwbl ddieithr, mae'n rhwydd dychmygu rhyw ardal anial, ddigroeso, ddigymeriad heb unrhyw rinweddau yn perthyn iddi. Ond nid ardal felly yw Swydd Lincoln. Mae'n amlwg fod yno dir amaethyddol cyfoethog ac yn heulwen braf diwedd Medi roedd y wlad yn edrych yn hardd. Dyma gartref Gwenllïan drwy gydol ei hoes heblaw'r misoedd cyntaf cythryblus ac ni chafodd erioed gyfle i adnabod

“llymder anial byd di-goed”

cadarnleoedd Gwynedd. Fe'i hamddifadwyd o'i safle, ei hiaith a'i diwylliant ac roedd ei charchariad ym mhellafoedd Lloegr wrth reswm yn drychineb i Gymru. Ond ga i fod yn bryfoclyd ac awgrymu efallai bod Gwenllïan yn fodlon ei byd yn y lleiandy, mewn byd a reolid gan ddyletswyddau ac oriau gweddi mae'n wir ond byd cymharol gysurus yn yr Oesoedd Canol. Doedd dim prinder bwyd na diffyg lloches mewn mynachlogydd a lleiandai, ac roedd grym yr eglwys gatholig ar y cyfan yn eu cadw'n lleoedd diogel.

Tybed a gai'r dywysoges y pleser a gefais i wrth edrych allan ar erwau gwastad ardal Sempringham a'r cnydau yn aeddfed yn haul yr hydref?



*Yr eglwys yn Sempringham
ar safle'r fynachlog
a'r lleiandy*



Y Gofeb yn Sempringham

Awdl Carlos D. Ferrari

Er ein bod yn eithaf cyfarwydd â disgrifiadau ysgrifenedig am sefydlu Y Wladfa, pwy ohonom ni tybed sydd wedi darllen y disgrifiadau hyn mewn pennillion telynegol? Dim llawer iawn rwy'n meddwl. Cyhoeddodd fy ffrind, y bardd ac awdur Carlos Dante Ferrari, o Trelew, ei 'Awdl i'r Orchest Gymreig', ddydd Sadwrn 28 Awst



Ymfudwyr y 'Mimosa' 25 mlynedd yn ddiweddarach.

yn Ffair Lyfrau Gaiman. Mae'r canlynol yn gyfieithiad, mewn testun, o ran o'r cyflwyniad fideo Sbaeneg gwreiddiol a wnaed gan Carlos i lansio ei lyfr:

"Heddiw, rwy'n falch iawn o gyflwyno fy llyfr newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Mae'n ymwneud â'r 'Awdl i'r Orchest Gymreig', cyfansoddiad telynegol a ysgrifennwyd yn arddull epig glasur diwylliant Gwlad Groeg-Rhufeinig, a ddefnyddiodd y mowld hwn i ganu eu stori ac addoli eu harwyr.

Mae camau'r stori yn cymryd 22 o deitlau, sydd yn eu tro wedi'u rhannu'n ganeuon naratif.

Fel rhagarweiniad, mae'r ffocws dros dro ar gyfnod agoriadol y grwpiau Celtaidd, yn ystod yr oes cyn-Gristnogol... ac yn olaf yn mynd i'r afael â'r cyfnod pan oedd pobl Cymru o dan awdurdod Coron Lloegr. Pwysleisir yma awydd cynyddol y Cymry i ymladd dros gael ymarfer eu traddodiadau, eu hiaith a'u diwylliant yn rhydd, hawliau sy'n cael eu tynnu'n ôl yn gyson, tra'u bod yn cael eu gorfodi i fyw mewn amodau caled a gyda llawer o amddifadedd.

Mae hyn yn deffro'r syniad o fudo i safleoedd eraill mwy ffafriol. Mae grŵp penodol yn dewis Patagonia'r Ariannin fel cyrchfan, a gadawodd y 'Mimosa', clipiwr cargo a addaswyd yn fyrfyr ar gyfer cludo teithwyr, ym mis Mai, 1865. Maent yn mynd ar daith o fwy na 10,000 cilomedr, mordaith a fydd yn para dau fis mewn amodau caled iawn i'r grŵp hwnnw o tua 150 o deithwyr - dynion, menywod a phlant.

Ar ôl glanio yn y 'Bahia Nueva' (Bae Newydd), mae'r naratif yn mynd trwy'r gwahanol gamau y mae'n rhaid i'r gwladychwyr sy'n dioddef eu hwynebu; ar y dechrau, ymsefydlu yn Nyffryn Chubut, ar lan afon fympwyl ac anrhagweladwy... a'r cyfeillgarwch â'r Tehuelches... darganfod cymoedd hyfryd yr Andes... ac yn olaf, cadarnhad ein sofraniaeth genedlaethol mewn anghydfod â Chile yn 1902.

Mae'r awdl yn cyrraedd cyfanswm o 1200 llinell; hyd heddiw, hon yw fy ngwaith mwyaf helaeth yn y genre barddonol, ac rwy'n amau a allwn i byth ysgrifennu gwaith o'r hyd hwnnw eto; mewn gwirionedd, nid wyf yn credu y gallwn ail-wneud rhywbeth felly yn y dyfodol; roedd yn ymdrech anodd iawn. Fe ges i fy nghalonogi gan y cariad a'r edmygedd enfawr rwy'n eu teimlo tuag at y cwmni unigryw a heb ei ail hwn a ymsefydlodd yn ein tiriogaeth yn yr Ariannin.

Fel y gwyddoch, nodweddwyd yr epigau clasurol gan ganu teyrngedau i arwr penodol ... Yn achos gwladychiad y Cymry, yn fwy nag arwriaeth unigol, rydym yn siarad am deilyngdod cyfunol. Dangoswyd arwriaeth gan y grŵp cyfan, gan gynnwys dynion, menywod a phlant a oedd, mewn ffordd dawel, gyda'u ffydd, gyda'u dycnwch mawr, eu ymwadiad a'u haberth, yn gallu goresgyn y profion anoddaf. Felly roeddent yn gosod ym Mhatagonia y sylfaen a'r amodau a oedd yn caniatáu genedigaeth talaith newydd... Fe gânt eu cofio heddiw yn ei henebion a'i strydoedd.


Er hyn i gyd, a'i ddweud mewn ychydig eiriau, mae'r 'Awdl i'r Orchest Gymreig', yn syml, yn gân o ddiolchgarwch a theyrned i'r ymsefydlwyr clodwiw hynny."

Mae 'Oda a la Gesta Gales' ('Awdl i'r Orchest Gymreig') ar gael yn Sbaeneg yn unig ar hyn o bryd; er bod Carlos wedi dweud wrthyf, os oes gan rywun yma ddiddordeb mewn cyfieithu ei waith i'r Gymraeg a'r Saesneg, byddai ganddo ddiddordeb mewn clywed unrhyw gynnig posibl. Cysylltwch â mi ar e-bost: cleifabifor@gmail.com fel y gallaf eich rhoi mewn cysylltiad â Carlos.

Clive Williams

Un Arall i'r Silff

Mae rhywbeth yn yr awyr yn ardal Cwmni. Dyma'r ail gyfrol i gael ei chyhoeddi gan un o drigolion ein bro yn ystod y ddau fis diwethaf.



Gwaith Gareth W. Williams, Nelson, sef, “A: annisgwyl”, sef dwsin o straeon sydd yn cynnig yr hyn mae’r teitl yn ei addo. Mae darllenwyr Cwmni wedi cael rhagflas o rai ohonynt eisoes yn ein papur bro. Cafodd Clwb Darllen Cwmni y fraint o ddarllen rhai eraill a’u trafod gyda’r awdur, ddwy flynedd yn ôl. Roedd y Clwb wedi annog Gareth i ddatblygu’r casgliad - a dyma a ddigwyddodd. Dyna beth oedd sypreis hyfryd i weld yr un straeon o fewn clawr mor drawiadol a rhyfedd. Mae hwn yn sicr o rybuddio’r darllenwr o’r hyn sydd i ddod.

Yn ots i’r rhan fwyaf o gasgliadau o straeon byrion, does yr un yn fwy pwysig neu’n fyrrach na’i gilydd. Mae sawl stori wedi’i hysgrifennu yn y person cyntaf, sy’n ychwanegu “realiti” i’r “annisgwyl”. Darllena i gant dau deg chwe tudalen mewn un prynhawn (gwlyb) o fwynhad pur.

Y peth cyntaf sy’n annisgwyl yw’r rhagair: “Mae unrhyw debygrwydd i bersonau go iawn yn hollol fwriadol...” I ddarganfod y pethau eraill sydd felly, mae’n rhaid i chi ddarllen y llyfr eich hunain. Mwynhewch!

Mary Jones


Sawt mai ardd yn eddrych?

Beth yw hwn?

Mae cyfnod y cynhaeaf wedi hen gyrraedd, ac i ddweud y gwir mae bron ar ben, er bod rhai blodau yn dal i blesio’r llygaid a llonni’r galon. Ond mae un o’r blodau sydd gen i yn yr ardd wedi peri tipyn o syndod - ac o benbleth - i fi hefyd. Rwy’n cofio prynu a phlannu’r bwlb y llynedd rywbyrd. Dyna’r olaf o’i fath yn y siop, yn gorwedd yn unig ar waelod y bocs.

Es i adre â’r darpar flodyn, a’i blannu’n ofalus. Daeth dail hir, niferus ac iachus ar ddechrau’r haf, ond dim blodau. Gwywodd y dail, a rhoddais y potyn naill ochr, gan anghofio amdano.

Yna, ryw bythefnos yn ôl - sef ddechrau mis Hydref - sylwais fod blaguryn wedi ymddangos yn y pot. Ni feddyliais lawer amdano: roedd pethau eraill i’w gwneud, gan gynnwys gwaith yn yr ardd - a cheisio bwyta’r cêl o hyd, wrth gwrs! Ond un noson, digwyddais edrych draw i’r gornel fach dywyll lle mae’r potiau bylbiau’n cael eu rhoi i ddisgwyl am y gwanwyn, ac wele - roedd blodyn hardd, egsotig iawn yr olwg gen i, yn serennu uwchben potyn llwm. Rhyfeddais ato, a chwiliais am y label, ond roedd hwnnw wedi hen ddiflannu (os bu gen i o gwbl), a minnau wedi anghofio enw’r blodyn a brynais.



Roeddwn am rannu’r rhyfeddod hardd hwn gyda darllenwyr Cwmni, wrth gwrs. Ond beth i’w wneud? Felly, penderfynais wneud beth mae sawl un ohonom yn ei wneud pan mae’n gyfyng gyngor arnom – gofyn i Gwyneth Davies, Maesycwmwr. Ac fe gefais yr ateb ganddi ar unwaith. Yna, fel hanesydd da, gwiriais y ffynhonnell, a chael bod Gwyneth yn llygad ei lle – fel arfer!

Efallai bod nifer ohonoch yn ’nabod y blodyn hwn (ac yn synnu bod rhywun mor anwybodus â fi yn mentro ysgrifennu am arddio!). Os felly - llongyfarchiadau. Os ydy’r blodyn yn ddieithr i chi hefyd - wel, diolch am godi fy nghalon, a throwch i dudalen 15 fe gewch yr enw yno.

Eisiau Gwneud Gwahaniaeth yn eich Cymuned?



Mae Cylchoedd
Meithrin yn
eich ardal yn
edrych am
wirfoddolwyr!

Pam Gwirfoddoli?

- Gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl eraill yn y gymuned
- Cefnogi'r iaith ac addysg Gymraeg
- Gwellu'ch CV – gall gwirfoddoli arwain at gyfleoedd gwaith neu newid gyrfa
- Datblygu sgiliau newydd a gwybodaeth
- Defnyddio'ch sgiliau proffesiynol er lles eraill
- Bod yn rhan o dîm
- Magu hunan hyder



Mae dros 450 o Gylchoedd Meithrin ar draws Cymru ac maent yn cael eu rheoli gan bwyllgorau rheoli gwirfoddol yn y gymuned. Mae hyfforddiant a chefnogaeth i wirfoddolwyr ar y pwyllgor ar gael gan Mudiad Meithrin (y mudiad ymbarél i Gylchoedd Meithrin). Mae Cylchoedd Meithrin yn darparu gofal ac addysg i blant bach 2-5 oed.

Diddordeb?

Cysylltwch gyda

Manon Jones-Berry

Ffôn: **07792 951187**

E-bost:

manon.jones-berry@meithrin.cymru

#MeithrinMiliwn

www.meithrin.cymru/i-bwyllgorau

Colofn Dafydd Islwyn

Difyr oedd darllen Colofn y Dysgwyr yn rhifyn mis Medi a mis Gorffennaf, Cerddi John Glyn Davies. Dilyna is gyngor Ann Lewis a bûm yn darllen ei hanes. Yn nwy fil a thair cyhoeddwyd, gan Wasg Pantycelyn, Caernarfon, 'Mi wisga i Gap Pîg Gloyw' - John Glyn Davies (1870-1953) gan Cledwyn Jones, un o Driawd y Coleg. Cofio am J. Glyn Davies heddiw fel awdur Cerddi Huw Puw a'r englyn Llŷn:

Heulwen ar hyd y glennydd – a haul hwyr
a'i liw ar y mynydd;
Fel Llŷn ar derfyn dydd –
Lle i enaid gael llonydd.

Y llinell olaf ar go' gwlad ers blynyddoedd. A oes lle i amau ei bod yn hen, hen linell?

Mae'n siŵr mai yn fy mlynyddoedd cynnar yn Ysgol Gynradd Pentraeth y clywais gyntaf am Fflaf Huw Puw. Flynyddoedd yn ddiweddarach y darllenis 'Cân Huw Puw' a'r cwpled cynta:

Cei weled rhyfeddode, cei hwylio byd, Pwllheli,
Porthmadog, Nefyn, Abersoch, Traeth Coch a'r Felinheli,
Biwmaris, Amlwch.....

Cwpled yn enwi tri lle ym Môn, ac un yn fy milltir sgwâr, Traeth Coch. Onid yn nosbarth Miss Jones, Trefor Newydd, yn yr ysgol gynradd y clywais y gân Siôn Corn - 'Pwy sy'n dŵad dros y bryn' gynta erioed? Heb wybod mae J. Glyn Davies oedd yr awdur a'i fod wedi bod yn byw yn Llandegfan, Sir Fôn, ryw bedair milltir o'm cartref, am gyfnod ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd!

Perswadiwyd ef ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg i beidio â dychwelyd i Seland Newydd ond i aros yng Nghymru. Yn dilyn ei benderfyniad i aros, cafodd swydd yn 1899 i sefydlu llyfrgell Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth, sylfaen y Llyfrgell Genedlaethol. Gwnaeth waith da yno. Gan na chafodd ei ystyried am swydd pan sefydlwyd y Llyfrgell Genedlaethol yn 1907, llosgodd bob un o'r miloedd o gardiau mynegi yr oedd wedi eu paratoi yn ystod ei waith yn y Coleg.

Yn 1907, fe gafodd swydd yn Llyfrgell Prifysgol Lerpwl. Ymhen amser penodwyd ef yn aelod o'r Adran Gelteg yn y Coleg. Yn 1920, penodwyd ef yn Bennaeth Adran a bu yno nes iddo ymddeol yn 1936. Yn Hydref 1920, dechreuodd Saunders Lewis (1893-1985) ar ei waith ymchwil ar gyfer ei radd M.A. yn y Coleg. Ei gyfarwyddwr oedd J. Glyn Davies! Bu'r berthynas fer rhyngddynt yn un ffyrnig a ffraellyd. Chwarter canrif yn ddiweddarach roedd J. Glyn Davies yn dal â'i gyllell yng nghefn Saunders. Dywedodd mewn llythyr at J. O. Williams, Bethesda, nad oedd ef yn byw yn yr un byd â Saunders Lewis! Yn ystod gwaith paratoi ar ei gyfrol, bu Cledwyn Jones mewn cysylltiad ag un o'i ferched, Elin, a

dywedodd hi wrtho: "*Saunders Lewis, his name was mud in our house. He was a pupil of my father for a short while.*"

Yn 1921, penodwyd Miss Jennie Thomas (1899-1979) yn athrawes ym Methesda, Gwynedd. Bu yno am dair blynedd cyn cael ei phenodi'n Drefnydd Iaith yr hen Sir Gaernarfon. Yn ystod y cyfnod hwn, ymwelai â John Glyn Davies yn ei gartref yn Ninbych i drafod ei thraethawd M.A. ag ef. Yn ystod yr ymweliadau hyn, clywodd ei blant, Gwen, Mair ac Elin, a'i fab Gwion yn canu y caneuon a gyfansoddodd ar eu cyfer. Gan iddi gredu y dylai plant eraill eu clywed, perswadiodd hi John Glyn Davies i'w cyhoeddi. Yn 1923, cyhoeddwyd 'Cerddi Huw Puw'. Nid dyma unig gymwynas Miss Jennie Thomas â phlant Cymru. Yn 1931, cyhoeddwyd 'Llyfr Mawr y Plant' ac roedd hi'n gyd-olygydd â J. O. Williams (1892-1973). Bu J. Glyn Davies ac R. Williams Parry (1884-1956) â'u rhan yn y gwaith.

Mae ei agwedd at ddau o'i fyfyrwyr ymchwil yn cadarnhau'r sylw amdano: "Nid oes amheuaeth nad oedd ei bersonoliaeth yn unigryw; gallai fod yn gyfaill cadarn ar y naill law ac yn elyn anfaddeugar ar y llaw arall." Yn gynnar yn 1933, agorwyd y Settlement ym Margod. Wardeiniaid cynta y sefydliad oedd Mr a Mrs J. H. Thomas a ddaeth i'r gwaith wedi tair blynedd yn drefnyddion a thiwtoriaid ym Maes yr Haf, Treallaw, Y Rhondda. Y gŵr a'u dilynodd yno oedd George M. Ll. Davies (1880-1949) – brawd ieuengaf J. Glyn Davies. Bu'n un o heddychwyr mawr Cymru ac yn warden llwyddiannus Maes yr Hafod, sefydliad agorwyd gan y Crynwyr yn 1927 i gynorthwyo dioddefwyr y Dirwasgiad ym Morgannwg a Mynyw.

Ymddeolodd yn 1946. Ef, George M. L. Davies, oedd yr ail wrthwynebwr cydwybodol i gael ei ethol yn Aelod Seneddol. Etholwyd ef yn Etholiad Cyffredinol y 6ed o Ragfyr 1923 dros Brifysgol Cymru gyda mwyafrif o ddeg pleidlais. Collodd ei sedd yn Etholiad Cyffredinol y 29ain o Hydref 1924. Ymhen dwy flynedd roedd yn Weinidog yr Efengyl yn Sir Feirionydd. Yn 1930, clywodd am gyny De Cymru a daeth i weithio ymhlith y dioddefwyr. Tybed a ymwelodd â'r Settlement ym Margod? Mae fy nychymyg ar waith bob tro y cerddaf heibio i'r adeilad.

Cyfarchion i chi i gyd. Fe gyrhaeddodd mis Tachwedd, felly does dim syndod bod cerdd y mis hwn am noson Guto Ffowc neu Guy Fawkes. Ydych chi'n hoffi tân gwyllt, tybed? Mae disgrifiadau da yn y gerdd hon yn gwneud i ni ddychmygu'r goelcerth a phopeth sy'n digwydd o'i chwmpas.

Tân Gwyllt

Rocedi'n gwibio i fyny'r awyr,
Fflamau'n cydio'n y brigau
fel tafod neidr,
Plant bach yn crio,
a'r tân yn llenwi'r awyr â hapusrwydd,
Oglau cŵn poeth yn llenwi
fy ffroenau,
Pobl yn baldorddi ar draws
ei gilydd,
Fflamau yn tasgu i bob man,
Yr awyr fel sbloets lliwgar wedi ei beintio gan blentyn bach,
Cysgodion yn cropian ar hyd y llawr,
Y tân fel nadredd lliwgar wedi cordeddu yn ei gilydd,
Esgidiau yn suddo i mewn i'r mwd meddal,
Sŵn rocedi'n byrstio allan
i fod fel cannoedd o binnau bach,
Arogl mwg
a choed yn llosgi,
a phlant yn gafael yn dynn
yn llaw eu rhieni,
Noson tân gwyllt,
Noson i'w chofio.



Kathy Griffiths

<i>coelcerth : bonfire</i>	<i>gwibio : to dart</i>	<i>brigau : branches</i>	<i>tafod neidr : a dragon's tongue</i>
<i>oglaui : smell</i>	<i>ffroenau : nostrils</i>	<i>baldorddi : to babble</i>	<i>tasgu : to spark</i>
<i>cysgodion : shadows</i>	<i>cropian : to creep</i>	<i>nadredd : snakes</i>	<i>cordeddu : to twist</i>
<i>arogl mwg : the scent of smoke</i>		<i>gafael yn dynn : to hold tightly</i>	

Atebion Cwis Cymru

- | | |
|--------------------------|------------------------|
| 1. James Griffiths | 6. Elin Jones |
| 2. 1966 | 7. Geoffrey Howe |
| 3. Ednyfed Hudson Davies | 8. Ramsay McDonald |
| 4. Alun Michael | 9. Julie |
| 5. Blaenau Gwent | 10. Megan Lloyd George |

Rhybud Teg – mae 10 cwestiwn arall ar y ffordd!

A'r Blodyn ar Dudalen 12?
Wel, Nerine bowdenii , wrth gwsr!



Cwrw da Cymraeg a Gwasanaeth Cymraeg

Uned B27 Ystâd Ddiwydiannol Trefforest CF375YB.

www.twtlol.com

Enillodd Twt Lol yr hawl i nodi'r mesurau ar
wydr cwrw YN Y GYMRAEG. Y cwmni cyntaf i
wneud hyn!!

Daeth yr hawl i wneud hyn wedi brwydr galed
â Swyddogion Prydeinig y Trethi.

Ewch draw i Drefforest i brynu gwydrau – ac i'w
llenwi â chwrw Cymraeg braf.

Haplyfr Hapus
LLYFR CYMRAEG AIL-LAW,
AR HAP, BOB MIS
WWW.CANTAMIL.COM

**Hoffech chi gael llyfrau Cymraeg
ail-law wedi'u dewis i chi?**

Ymunwch â Haplyfr Hapus a bydd Cant a mil yn dewis
llyfr ail-law i chi bob mis am flwyddyn!

Tanysgrifiad blwyddyn: Trwy'r post £59
Casglu eich hunan £35

**Would you like a friend to receive a
Welsh language book every month?**

Take out a Haplyfr Hapus subscription and Cant a mil
will choose a secondhand book for your friend every
month for a year!

Annual subscription: By post £59 Collection £35

To join go to www.cantamil.com and search
for Haplyfr Hapus

www.cantamil.com

PWYLLGOR a SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

Dosbarthu a Golygydd Lluniau: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Gweplyfr/ Face book:  Papur Bro Cwmni Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Dilys Williams

Hysbysebu: Bethan Ollerton Jones, Menter Iaith

Gwefan: Menter Iaith SirCaerffili.cymru/ 

e-bost: Golygydd@papurecwmni.cymru benamarycwmni@yahoo.com

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn ôl gofynion golygyddol.



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*